

# Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

23 Mehefin 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd S Yelland (y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair ar gyfer eitem 1)  
Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12.25pm)

## 1. Ethol Cadeirydd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd K Doolin yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Cymerodd y Cynghorydd K Doolin y Gadair a llywyddu gweddill y cyfarfod.]*

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd S Yelland yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

## 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans.

## 4. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd P Harries, Dr R Plummer a Dr M Havard bod ganddynt fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn Adroddiad 04/21 Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

## 5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 17eg o Fawrth 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Dywedwyd y dylai'r ddau air Lladin *Hymenoscyphus fraxineus* y cyfeirir atynt yng nghofnod 6 fod mewn ysgrifen italig neu wedi'u tanlinellu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 17eg o Fawrth 2021 yn amodol ar gynnwys y newid uchod.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

### a) Cofrestr Risg (Cofnod 4)

Dywedwyd bod y broblem bod y Gofrestr yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor hwn a gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i thrafod yn y cyfarfod blaenorol, a bod awgrym



wedi'i wneud y dylid cynnal Gweithdy i bob Aelod ystyried parodrwydd i dderbyn risg a gwelliannau i'r Gofrestr. Atebodd y Prif Weithredwr bod Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod yn edrych ar y Gofrestr fel rhan o'u rhaglen waith ar gyfer 2021/22 ac y byddai Gweithdy naill ai'n cael ei drefnu unwaith y byddai eu hadroddiad ar hyn wedi dod i law neu y byddai'n destun adroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

#### b) Y Cynllun Kick-Start (Cofnod 5)

Dywedwyd y byddai adroddiad ar y Cynllun yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Personél yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

### **NODWYD.**

#### **7. Ardaloedd Morol Gwarchodedig o amgylch Arfordir Sir Benfro**

Dywedodd y Swyddog Polisi Cadwraeth mai pleser oedd cael cwmni Sue Burton yn y cyfarfod, sef Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro, fyddai'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r mathau o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd yng Nghymru, ac yn clustnodi'r safleoedd sydd o fewn neu'n agos i'r Parc Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad yn mynd rhagddo i amlinellu'r trefniadau o reoli'r ardaloedd hyn, gan dynnu sylw at y gwahanol grwpiau morol y cynrychiolir yr Awdurdod arnynt, ynghyd â chyfraniadau ariannol yr Awdurdod. Hefyd ynghlwm er gwybodaeth oedd y Cynllun Gweithredu ar Reoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer Cymru 2020-21.

Yn y cyfarfod, roedd y Swyddog wedi rhoi crynodeb o'r prif newidiadau polisi a deddfwriaethol oedd wedi effeithio ar yr amgylchedd morol lleol ers ei adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor fis Rhagfyr 2018. Nodwyd hefyd bod Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro wedi llunio Adroddiad Cynnydd 2018 i 2020, ac y byddai'r adroddiad hwn y cael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am bapur defnyddiol oedd yn rhoi'r cyd-destun i'r gwaith hanfodol a wneir gan yr Awdurdod fel Parc Cenedlaethol arfordirol. Bu trafodaeth eang i ddilyn pan awgrymwyd y gallai'r Awdurdod gymryd mwy o arweiniad, gan drefnu cyfarfod o bosibl gyda'r rhai sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr amgylchedd morol i weld a ellid rhoi mwy o gefnogaeth. Dywedodd Sue Burton y byddai'n trefnu cyfarfod agored fis Hydref yn y gobaith o gael Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Llywodraeth Cymru yn bresennol, ac roedd yn hapus i wahodd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod. Awgrymwyd hefyd y gellid cynhyrchu siart sy'n dangos y cysylltiad rhwng y gwahanol gyrff â'i gilydd; dywedwyd bod swyddogion CNC wedi cytuno'n ddiweddar i geisio llunio'r cyfryw ddiagram, ond gallai ymdrech ar y cyd â'r Awdurdod fod yn fuddiol.



Hefyd bu peth trafodaeth am y posibilrwydd o ddynodi Parc Cenedlaethol Morol, neu ymestyn y Parc Cenedlaethol presennol i gynnwys yr amgylchedd morol, a dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod y byddai ef a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â chynrychiolwyr Sefydliad y Blue Marine, oedd wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar ar y Parciau Cenedlaethol Morol, yn ystod y misoedd nesaf. Awgrymwyd y gallai'r Awdurdod gomisiynu rhywfaint o waith ar y manteision a'r cyfleoedd o gael Parc Cenedlaethol Morol yn Sir Benfro.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn argymhell bod astudiaeth yn cael ei gomisiynu i ymchwilio i'r manteision a'r cyfleoedd o gael Parc Cenedlaethol Morol yn Sir Benfro, a'r camau ymarferol sydd angen eu cymryd i wireddu hynny.

## 8. **Wardeniaid Coed Sir Benfro**

Dywedodd y Swyddog Coed a Thirwedd bod Cynllun Wardeniaid Coed y Cyngor Coed wedi'i sefydlu yn 1990 a bod y cynllun wedi bod yn gweithredu yn Sir Benfro ers 2004. Rhoddodd drosolwg o'r tasgau a wneir gan wardeniaid Sir Benfro, megis rheoli perllannau a phlygu gwrychoedd yn y dull traddodiadol yn ogystal â chadw golwg ar dyfiant y ferywen ar glogwyni Ynys Dewi, a mynychu digwyddiadau eraill a drefnir yn lleol. Roedd cynnwys y gymuned hefyd yn cael ei annog, ac roedd yr hyfforddiant a ddarperir yn fodd o rannu gwybodaeth werthfawr. Un o brif nodau'r Cynllun oedd sefydlu perllannau cymunedol ym mhob Cyngor Cymuned yn y Parc Cenedlaethol a thu hwnt; roedd 42 o wahanol fathau o afalau wedi'u clustnodi, ac roedd y rhain wedi'u plannu fel perllan dreftadaeth yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol.

Aeth y Swyddog rhagddo i egluro bod y cynllun wedi cael ei ail-lansio yn 2019 gyda chefnogaeth Cydlynedd Gwirfoddolwyr yr Awdurdod i greu disgrifiad o'r tasgau, gan roi ffocws i'r rôl er budd y gwirfoddolwyr a'r Awdurdod. Cyn y cyfnod clo, roedd pecyn cymorth i ymdrin â'r clefyd coed ynn wedi'i ddatblygu, ac roedd sesiwn hyfforddiant awyr agored ar hyn wedi'i gynnal yn ddiweddar, er bod cyswllt â'r Wardeniaid wedi'i gynnal yn y cyfamser drwy sesiynau ar-lein. Ymhlith y digwyddiadau oedd wedi'u trefnu yn y dyfodol oedd hyfforddiant ar goed hynod a choed hynafol ac ar blannu coed Llwyfen sy'n gwrthsefyll afiechydon. Hefyd roedd taflen ddwyieithog i hysbysebu'r Cynllun Warden Coed wedi'i chyhoeddi, ac roedd hyn ynghyd â'r erthyglau yn Coast to Coast ac ar wefan yr Awdurdod, wedi arwain at recriwtio 6-8 o wirfoddolwyr newydd.

Gan ddiolch i'r swyddog am ei gyflwyniad, gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw ystadegau ar gael ynghylch nifer, lleoliad, oedran ac ati y wardeniaid coed cyfredol, a'r cynlluniau i ehangu'r sylfaen bresennol, ac anogwyd mwy o gyfathrebu am eu llwyddiannau. Awgrymwyd hefyd y



dylid archwilio'r cysylltiadau â'r prosiectau plannu coed yn ddiweddar a ariannwyd drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Gan groesawu plannu coed Llwyfen sy'n gwrthsefyll afiechydon, aeth yr Aelodau ymlaen i ofyn am goed Ynn sy'n gwrthsefyll afiechydon. Dywedodd y swyddog bod cynnal profion ar amrywiaethau posibl yn parhau ar hyn o bryd, a'i fod yn rhagweld y byddai hyn yn parhau am gryn amser. Ychwanegodd y byddai'n dosbarthu gwybodaeth am nifer, ac ati, y gwirfoddolwyr presennol.

## **NODWYD**

- 9. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2021**
- Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran - roedd yr adran gyntaf yn seiliedig ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau tymor byr a'r tymor canolig, oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 a chynllunio'r adferiad, tra bod yr ail adran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith oedd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y tymor hwy, a'r effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Roedd yr adran hon yn rhoi mewnwelediad i effaith COVID-19 a'r adferiad ar y gallu i gyflawni yn y tymor hir ac ar y prosiectau ar draws yr amcanion llesiant. Roedd camau ymlaen wedi'u cymryd ar rai gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, roedd nifer ohonynt, yn enwedig y rhai oedd yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, wedi'u heffeithio gan godi'r cyfyngiadau a'r rheoliadau neu eu hail-gyflwyno neu gan yr Awdurdod yn gorfod addasu neu ail flaenoriaethu ei waith i ganolbwyntio ar ymateb i COVID-19.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad am y flwyddyn ariannol 20/21 gyfan am y mwyafrif o'r setiau data misol a chwarterol. Roedd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi amlygu nifer o fesurau a chamau gweithredu mewn perthynas â'r cyfyngiadau a'r adferiad COVID-19, gan nodi, yn unol â'r cynlluniau adfer a'r asesiadau risg perthnasol, bod gwasanaethau wyneb yn wyneb wedi ailgychwyn yn unol â'r cyfyngiadau yn ystod Ch2 a Ch3, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu yn yr awyr agored, ond roedd ail-gyflwyno'r cyfnod clo yn ystod Ch4 yn golygu dychwelyd i weithio o bell ar draws pob tîm. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd roedd wedi bod yn bosibl parhau i addasu gwasanaethau drwy ddefnyddio cyfleoedd digidol ar gyfer dulliau rhithiol neu hybrid.

Roedd perfformiad y gwasanaeth cynllunio wedi'i effeithio yn ystod y flwyddyn gan ôl-groniad llwyth gwaith, problemau gyda systemau TG allanol a chyfyngiadau ar allu i fynd i mewn i'r swyddfa ac ar gynnal ymweliadau safle. Bellach roedd mynediad i'r swyddfa a gwneud



ymweliadau personol hanfodol â safleoedd wedi aildechrau, ond serch hynny, roedd effaith y materion hyn wedi'i amlygu yn y mesurau cynllunio chwarterol, er bod gwelliant mewn perfformiad rhwng Ch3 a Ch4, ac roedd % yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol wedi symud o sgôr coch (Coch Oren Gwyrdd) i sgôr oren ar 66.31%.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y gwaith a gyflawnwyd i ddiwallu amcanion tymor hwy, gan gynnwys ariannu'r prosiect Gwreiddiau i Adferiad, ond roedd COVID 19 wedi cael effaith ar gyflawni rhai gweithgareddau sy'n cyfrannu at yr amcanion hyn. Roedd y gweithgareddau a'r blaenoriaethau wedi'u hadolygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22, ac nid oedd rhai gweithgareddau wedi'u cario ymlaen, neu wedi'u diwygio, i amlygu'r newidiadau yn y ffordd y byddent yn cael eu cyflawni.

Wrth longyfarch y staff ar draws yr Awdurdod am yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni, anogwyd y swyddogion i edrych ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt mewn goleuni cadarnhaol gan fod y sylwadau yn aml yn awgrymu lefel uwch o waith a gweithgaredd na'r hyn a amlygir yn y patrwm a'r sgôr Coch Oren Gwyrdd. Diolchwyd hefyd i'r Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth am lunio'r adroddiad.

Hefyd dywedodd yr Aelodau ei bod yn hanfodol i edrych ar yr hyn y gellid ei ddysgu o effaith COVID-19, ac o'r newidiadau, megis y cynnydd mewn hyder a gallu yn y maes digidol, a'r modd y gellid harneisio hyn wrth symud ymlaen er mwyn lleihau ôl troed carbon; rhoddwyd croeso i'r canllaw gan Lywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net. Yn benodol, gofynnwyd am wybodaeth bellach am effaith y system archebu ymlaen llaw a gyflwynwyd ar safleoedd yr Awdurdod. Hefyd gofynnwyd am diweddariad ar y prosiect sy'n mynd i'r afael â llygredd golau, ac ar y llwybr troed Pwllcornel, a chytunodd y swyddog i gael gair â'r swyddogion perthnasol a chyflwyno'r wybodaeth ar ôl y cyfarfod.

Roedd y gostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch staff wedi'i nodi. Fodd bynnag, roedd hyn yn faes i'w gadw dan wylidwriaeth, gan mai lles y staff yw'r flaenoriaeth uchaf. Yn olaf, er mai pleser oedd gweld y gwelliannau i'r ffigurau perfformiad cynllunio, mynegwyd peth pryder ynghylch y gostyngiad yn yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc bod y cyfnod clo wedi golygu nad oedd swyddogion yn gallu cynnal ymweliadau safle a bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn y ffigurau. Fodd bynnag, byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

## **NODWYD**



## 10. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr risg, ac amlygwyd y newidiadau a wnaed ers yr adroddiad blaenorol.

Nododd yr Aelodau bod angen diweddariad i nifer o'r risgiau, (roedd rhifau 8, 17, 18, 20, 21, 24, 25 a 27 wedi'u hamlygu), ac roeddent o'r farn y gallai rhai o'r rhain gael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Roeddent yn edrych ymlaen at y Gweithdy ar reoli risg, ac yn gobeithio y gallai'r ddogfen fod yn fwy rhagweithiol o ran naws o ganlyniad. Diolchodd y Rheolwr Cyllid i'r Aelodau am eu sylwadau gan ychwanegu y byddai'r gofrestr yn cael ei diweddarau yn unol â hynny.

### **NODWYD**

## 11. Y Rhaglen Waith am y Flwyddyn sydd i ddod

Dywedodd y Cadeirydd bod yr eitem hon yn gyfle i'r Pwyllgor gyflwyno awgrymiadau ar gyfer eitemau y dymument eu hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Ymhlith yr awgrymiadau oedd y potensial o gael Parc Cenedlaethol Morol, gwirfoddoli ar draws holl weithgareddau'r Awdurdod, COP26, y protocol oedd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer Awdurdodau Lleol ar ddewis Cynghorwyr, a'r pwysau twristiaeth gan gynnwys atebion i'r heriau a wynebir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr bod yr Awdurdod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'i ddulliau gwirfoddoli, ac y gallai'r adroddiad cyn-derfynol gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor unwaith y byddai ar gael. O ran y pwysau twristiaeth, a gan fod hwn yn bwnc mor eang, awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol ei gynnwys mewn cyfres o adroddiadau allai ganolbwyntio ar y gweithgaredd adweithiol a'r dulliau rhagweithiol a gymerir ar lefel y DU.

### **NOTED.**

## 12. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

